



Addysg Gychwynol i Athrawon yng Nghymru, 2021/2022


25 Mai 2023
SB 19/2023

Mae'r bwletin hwn yn rhoi gwybodaeth am fyfyrwyr sy'n hyfforddi i fod yn athrawon. Mae'n cynnwys athrawon dan hyfforddiant mewn prifysgolion yng Nghymru a hefyd myfyrwyr o Gymru sy'n astudio ledled y DU.

Cyrsiau Addysg Gychwynol Athrawon (AGA) sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig yw'r brif ffordd o ddod yn athro.

Prif bwyntiau

Dyraniadau derbyn a dyraniadau o ran newydd-ddyfodiaid ar gyrsiau AGA yng Nghymru, 2012/13 i 2021/22



Disgrifiad o'r siart: Siart linell sy'n dangos bod y nifer a ddechreuodd cyrsiau ysgol gynradd yn uwch na'r dyraniadau am yr ail flwyddyn yn olynol, tra bo'r nifer a ddechreuodd cyrsiau ysgol uwchradd yn is na'r dyraniadau am yr wythfed blwyddyn yn olynol.

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) a Llywodraeth Cymru

- Dechreuodd 1,610 ar gyrsiau AGA yng Nghymru yn 2021/22; 935 ar gyrsiau ysgol gynradd a 675 ar gyrsiau ysgol uwchradd.

Ynglŷn â'r bwletin hwn

Cymerwyd y data sydd yn y bwletin hwn o Gofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).

Oni nodir yn wahanol, mae'r ffigurau'n ymwneud â myfyrwyr newydd (blwyddyn gyntaf) ar gyrsiau AGA ym mlwyddyn academiaidd 2021/22.

Yn y bwletin hwn

Cyd-destun polisi	3
Myfyrwyr yng Nghymru	5
Myfyrwyr cymwysedig yng Nghymru	7
Myfyrwyr o Gymru sy'n astudio yn y DU	9
Myfyrwyr cymwysedig o Gymru sy'n astudio yn y DU	12
Pynciau	14
Y Gymraeg	16
Demograffeg	20
Methodoleg	25
Diffiniadau	27
Gwybodaeth allweddol am ansawdd	30
Cyhoeddiadau cysylltiedig	32

Prif bwyntiau (parhau)

- Er bod y nifer a ddechreuodd cyrsiau AGA ysgol uwchradd yng Nghymru ar gyfer 2021/22 yn is nag yr oedd yn 2020/21, roedd y nifer a ddechreuodd cyrsiau yn 2021/22 yn dal i fod yn uwch nag yr oeddent am bob blwyddyn rhwng 2015/16 a 2019/20.
- Roedd nifer y rhai a ddechreuodd cyrsiau AGA ysgol gynradd yng Nghymru 20% yn uwch na'r dyraniadau yn 2021/22.
- Roedd nifer y rhai a ddechreuodd cyrsiau AGA ysgol uwchradd yng Nghymru 34% yn is na'r dyraniadau yn 2021/22.
- Roedd nifer y myfyrwyr AGA blwyddyn gyntaf yng Nghymru a oedd yn hyfforddi i allu addysgu yn y Gymraeg 4% yn is nag yr oedd yn 2020/21, sef 325 o fyfyrwyr yn 2021/22. Fodd bynnag, mae hyn yn cyfrif am 20% o gyfanswm nifer y myfyrwyr AGA blwyddyn gyntaf yng Nghymru, sef yr un gyfran ag yn 2020/21.
- Mathemateg, Bioleg a Chymraeg oedd y pynciau blaenoriaeth mwyaf cyffredin i fyfyrwyr sy'n dechrau ar gyrsiau AGA ysgol uwchradd yng Nghymru.
- Roedd 5% o fyfyrwyr AGA newydd yng Nghymru yr oedd eu hethnigrwydd yn hysbys o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnic Leiafrifol yn 2021/22, sef yr un gyfran ag ydoedd yn 2020/21.
- Roedd 84% o fyfyrwyr AGA newydd a oedd yn hyfforddi yng Nghymru yn byw yng Nghymru cyn dechrau ar eu gradd.

Cyd-destun polisi

Dyraniadau ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021/22

Ar gyfer 2021/22, [Cyngor y Gweithlu Addysg](#) a bennodd y dyraniadau ar gyfer cyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru. Cafodd dyraniadau ar wahân eu pennu ar gyfer cyrsiau'r Brifysgol Agored gan Lywodraeth Cymru. Mae'r dyraniadau yn ymwneud â'r nifer sy'n hyfforddi i fod naill ai'n athrawon ysgol gynradd neu'n athrawon ysgol uwchradd a'r nifer sy'n gwneud cyrsiau AGA ôl-raddedig neu israddedig. Arferai cyrsiau ôl-raddedig a TAR olygu yr un peth, er bod rhywfaint o fân wahaniaethau rhyngddynt. Mae rhagor o wybodaeth ar gael o dan 'Y math o radd' yn y [Diffiniadau](#).

Dyraniadau Cyngor y Gweithlu Addysg a'r Brifysgol Agored ar gyfer cyrsiau Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yng Nghymru, 2021/22

		TAR	Gradd arall	Cyfanswm
Dyraniadau CGA	Ysgol gynradd	398	264	662
	Ysgol uwchradd	948	0	948
	Total	1,346	264	1,610
Dyraniadau'r Brifysgol Agored	Ysgol gynradd	117	0	117
	Ysgol uwchradd	68	0	68
	Total	185	0	185
Cyfanswm	Ysgol gynradd	515	264	779
	Ysgol uwchradd	1,016	0	1,016
	Cyfanswm	1,531	264	1,795

Disgrifiad o'r tabl: Tabl yn dangos bod cyfanswm o 779 o ddyraniadau ar gyfer lleoedd mewn ysgolion cynradd a 1,016 o ddyraniadau ar gyfer lleoedd mewn ysgolion uwchradd yn 2021/22.

Ffynhonnell: Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) a Llywodraeth Cymru.

Polisi

Rhwng 2005/06 a 2013/14, bu Llywodraeth Cymru yn anelu at leihau nifer y bobl sy'n gwneud cyrsiau AGA er mwyn cyd-fynd yn well ag anghenion ysgolion yng Nghymru. Gwnaed hyn mewn ymateb i Adolygiad o'r Ddarpariaeth o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru. Yn 2014, cafodd yr Athro John Furlong ei benodi'n Gynghorydd Cymru ar gyfer Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon, gan gyhoeddi [Addysgu Athrawon Yfory](#) yn 2015. Cyhoeddwyd manylion rhaglenni AGA achrededig newydd i'w cyflwyno o fis Medi 2019 mewn [Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig](#). Ers Medi 2019, o dan y [meini prawf achredu](#) newydd, dim ond rhaglenni TAR sy'n cael eu hachredu i ddarparu AGA ar gyfer addysg uwchradd, ac ni chafodd rhaglenni israddedig ar gyfer arbenigeddau pwnc ym maes addysg uwchradd eu cyflwyno gan Bartneriaethau AGA.

Y blaenoriaethau recriwtio presennol ar gyfer AGA yng Nghymru yw:

- Athrawon dan hyfforddiant o gefndiroedd amrywiol gan gynnwys myfyrwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.
- Athrawon dan hyfforddiant ar gyfer arbenigeddau pwnc penodol ym maes addysg uwchradd (Bioleg, Cemeg, Dylunio a Thechnoleg, TGCh, Mathemateg, Ieithoedd Tramor Modern, Ffiseg a Chymraeg).

- Athrawon dan hyfforddiant ag arbenigeddau pwnc ym maes addysg uwchradd sy'n hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Canolfannau Addysg Athrawon

Yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22, achredwyd y Partneriaethau Addysg Gychwynnol Athrawon canlynol:

- [CaBan](#) (Prifysgol Bangor a Phrifysgol Caer)
- [Partneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa](#) (Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin ac Abertawe)
- [Partneriaeth Caerdydd](#)
- [Partneriaeth AGA Aberystwyth](#)
- [Partneriaeth AGA Prifysgol De Cymru](#)
- [Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe](#)
- [Partneriaeth y Brifysgol Agored](#)

Cymhellion

Gall rhai myfyrwyr fod yn gymwys i gael grantiau i'w cymell i hyfforddi mewn meysydd penodol, fel [Cynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory](#), a'r [Cynllun Cymhelliant Addysg Gychwynnol i Athrawon o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol](#). Mae gwerth cynlluniau cymhelliant Llywodraeth Cymru yn amrywio a gall rhai athrawon dan hyfforddiant fod yn gymwys i gael nifer o grantiau. Caiff y cynlluniau cymhelliant eu pennu bob blwyddyn gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, yn ôl yr angen o fewn y sector.

Adran A: Myfyrwyr yng Nghymru

Mae'r adran hon yn ymwneud â myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau AGA mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru. Mae'n cynnwys myfyrwyr a oedd yn gwneud cyrsiau AGA yn y Brifysgol Agored sydd wedi'i gofrestru mewn Canolfan Genedlaethol yng Nghymru, pan y bu i'r brifysgol honno ddarparu cyrsiau. Mae'r data'n ymwneud â myfyrwyr sy'n dechrau eu cwrs – sef myfyrwyr blwyddyn gyntaf. Mae gwybodaeth am fyfyrwyr AGA ym mhob blwyddyn o'u cyrsiau ar gael ar [StatsCymru](#).

Tabl A.1: Lefel ysgol a math gradd myfyrwyr sy'n dechrau ar gyrsiau AGA yng Nghymru yn erbyn y dyraniadau, 2016/17 i 2021/22

	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22
<u>Ysgol gynradd</u>						
TAR	425	430	375	420	635	645
Gradd arall	270	245	210	190	285	295
Cofrestrïadau ysgolion cynradd	700	670	585	615	920	935
Dyraniadau ysgolion cynradd	750	750	750	696	836	779
<u>Ysgol uwchradd</u>						
Cofrestrïadau ysgolion uwchradd	545	525	480	465	760	675
Dyraniadau ysgolion uwchradd	871	871	851	1,006	1,048	1,016
Cyfanswm y cofrestrïadau	1,245	1,200	1,065	1,080	1,680	1,610
Cyfanswm y dyraniad	1,621	1,621	1,601	1,702	1,884	1,795

Disgrifiad o dabl A.1: Tabl sy'n dangos bod nifer y rhai a ddechreuodd gyrsiau AGA ysgol gynradd yn uwch yn 2021/22 nag ydoedd am bob blwyddyn ers 2016/17. Roedd nifer y rhai a ddechreuodd gyrsiau AGA ysgol uwchradd yn uwch yn 2021/22 nag ydoedd am bob blwyddyn rhwng 2016/17 a 2019/20, gan gyrraedd uchafbwynt yn 2020/21 ar gyfer y cyfnod hwn.

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) a Llywodraeth Cymru [\[Gweler y data\]](#)

- Y dyraniad ar gyfer cyrsiau cynradd oedd 779, a 935 o fyfyrwyr a gofrestrodd. Y dyraniad ar gyfer cyrsiau uwchradd oedd 1,016, ond dim ond 675 o fyfyrwyr a gofrestrodd.
- Roedd gostyngiad o 11% yn nifer y rhai a ddechreuodd gyrsiau AGA ysgol uwchradd yn 2021/22 o'i gymharu â 2020/21. Dim ond 66% o'r lefel ddyrannu yn 2021/22 oedd ar gyfer y nifer a gofrestrodd ar gyrsiau AGA ysgol uwchradd.
- Roedd cynnydd o 2% yn y nifer a ddechreuodd gyrsiau AGA ysgol gynradd o'i gymharu â 2020/21. Ar gyfer 2021/22, roedd y nifer a ddechreuodd gyrsiau AGA ysgol gynradd wedi cyrraedd 120% o'r lefel ddyrannu.

Dechreuodd y Brifysgol Agored gynnig y TAR yng Nghymru yn 2020/21. Mae dau lwybr y gellir eu dilyn wrth ymgymryd â TAR yn y Brifysgol Agored - y llwybr rhan-amser a'r llwybr cyflogedig. Mae Tabl A.2 yn dangos y llwybrau a gymerwyd gan fyfyrwyr TAR yn y Brifysgol Agored.

Tabl A.2: Y nifer a ddechreuodd cyrsiau TAR yn y Brifysgol Agored yn ôl llwybr, 2020/21 i 2021/22

	2020/21	2021/22
Cofrestriadau'r llwybr cyflogedig	60	70
Cofrestriadau'r llwybr rhan-amser	85	90
<u>Cyfanswm</u>	140	160

Disgrifiad o dabl A.2: Tabl sy'n dangos bod y nifer a ddechreuodd gyrsiau TAR yn y Brifysgol Agored ychydig yn uwch nag yr oeddent yn 2021/22.

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

Tabl A.3: Gwlad gartref myfyrwyr a ddechreuodd gyrsiau AGA yng Nghymru, 2016/17 i 2021/22

Gwlad gartref	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22
DU	1,220	1,140	1,025	995	1,630	1,500
Cymru	1,105	1,025	935	925	1,445	1,360
Lloegr	105	105	85	65	175	130
Yr Alban	0	0	0	0	5	5
Gogledd Iwerddon	5	5	5	5	10	5
Gwlad arall o'r UE	10	15	0	15	15	10
Heb fod o'r UE	15	45	35	70	35	100

Disgrifiad o dabl A.3: Tabl sy'n dangos bod nifer y myfyrwyr o Gymru a Lloegr a ddechreuodd ar gyrsiau AGA yng Nghymru rhwng 2016/17 a 2021/22 ar ei uchaf yn 2020/21, ond iddo barhau i fod yn uwch yn 2021/22 nag y bu ym mhob blwyddyn rhwng 2016/17 a 2019/20.


Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) [\[Gweler y data\]](#)

- Yn dilyn yr uchafbwynt yn 2020/21, roedd y myfyrwyr o Gymru a ddechreuodd gyrsiau AGA wedi gostwng 90 myfyriwr (6%) rhwng 2020/21 a 2021/22, tr abo nifer y myfyrwyr o Loegr wedi gostwng 40 myfyriwr (24%).
- Roedd 84% o'r myfyrwyr a ddechreuodd gwrs AGA yng Nghymru yn 2021/22 yn byw yng Nghymru cyn hynny.

Adran B: Myfyrwyr cymwysedig yng Nghymru

Y rhai a gafodd gymhwyster gan gwrs AGA yn y flwyddyn honno yw myfyrwyr cymwysedig. Dim ond y rhai a gyflawnodd Statws Athro Cymwysedig (SAC) sydd wedi'u cynnwys. Fel rhan o ddata myfyrwyr HESA, mae [tystiolaeth](#) bod oedi gweinyddol yn sgil pandemig COVID-19 wedi effeithio ar nifer y cymwysterau a nodwyd fel rhai a ddyfarnwyd yn 2019/20. Cyfrannodd hyn at y nifer uwch o gymwysterau a gafodd eu dyfarnu yn 2020/21, ac felly gallai hynny fod wedi effeithio ar nifer y myfyrwyr a nodwyd fel rhai sy'n cyflawni SAC.

Siart B.1: Myfyrwyr cymwysedig o gyrsiau AGA yng Nghymru o'u cymharu â myfyrwyr blwyddyn gyntaf, 2012/13 i 2021/22



Disgrifiad o siart B.1: Siart sy'n dangos bod cyfanswm nifer y myfyrwyr cymwysedig o gyrsiau AGA yng Nghymru yn uwch yn 2021/22 nag ydoedd ym mhob blwyddyn ers 2014/15.

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) [\[Gweler y data\]](#)

- Yn 2021/22, gwnaeth 1,325 o bobl gymhwyso'n llwyddiannus o gwrs AGA yng Nghymru a gwnaeth 1,610 o bobl ddechrau ar gwrs.

Tabl B.1: Lefel ysgol myfyrwyr cymwysedig o gwsiau AGA yng Nghymru, 2016/17 i 2021/22

	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22
Ysgol gynradd	640	605	550	595	640	745
Ysgol uwchradd	505	450	405	435	630	580
Cyfanswm	1,145	1,055	955	1,030	1,270	1,325

Disgrifiad o dabl B.1: Tabl sy'n dangos bod nifer y myfyrwyr cymwysedig o gwrs AGA lefel ysgol gynradd yng Nghymru yn uwch yn 2021/22 nag ydoedd ym mhob blwyddyn ers 2016/17. Yn ystod yr un cyfnod, gostyngodd nifer y myfyrwyr cymwysedig o gwrs AGA lefel ysgol uwchradd yn 2021/22 yn dilyn uchafbwynt yn 2020/21 ond roedd nifer y myfyrwyr cymwysedig yn 2021/22 yn dal i fod yn uwch nag ydoedd bob blwyddyn rhwng 2016/17 a 2019/20.

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) [\[Gweler y data\]](#)


- Roedd 100 yn fwy o fyfyrwyr wedi ennill Statws Athro Cymwysedig ar gyfer ysgol gynradd yn 2021/22 nag yn 2020/21 – sef cynnydd o 16%. Roedd hyn yn gynydd am y drydedd flwyddyn yn olynol, gan wrthdroi'r duedd flaenorol ar i lawr.
- Roedd mwy o fyfyrwyr wedi ennill Statws Athro Cymwysedig yn 2021/22 nag ym mhob blwyddyn rhwng 2016/17 a 2019/20. Ond roedd nifer y nifer y myfyrwyr a oedd wedi ennill Statws Athro Cymwysedig ar gyfer ysgol uwchradd yn 2021/22 7% yn is nag ydoedd yn 2020/21.

Adran C: Myfyrwyr o Gymru sy'n astudio yn y DU

Mae'r adran hon yn ymwneud â myfyrwyr o Gymru a astudiodd gyrsiau AGA yn y DU, a hynny yng Nghymru ac mewn mannau eraill. Ystyriwyd bod rhywun yn dod o Gymru os oedd cyfeiriad ei gartref yng Nghymru **cyn** iddo ddechrau'r cwrs (gweler 'Myfyrwyr o Gymru' yn yr adran ddiffiniadau).

Yn y gorffennol, bu'r diddordeb pennaf o ran polisi Llywodraeth Cymru mewn myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau AGA yng Nghymru, o ble bynnag yr oeddent yn dod. Y rheswm am hynny yw bod cyrsiau AGA yng Nghymru yn addysgu Cwricwlwm Cymru, sy'n wahanol i gwricwlwm gwledydd eraill y DU. Fodd bynnag, mae gwybodaeth am [gyrchfannau myfyrwyr AGA](#) yn 2016/17 yn awgrymu bod llawer o fyfyrwyr yn dychwelyd i'w gwledydd cartref i ddechrau addysgu. Golyga hyn, wrth gwrs, y gall myfyrwyr o Gymru sy'n hyfforddi i fod yn athrawon mewn mannau eraill yn y DU ddychwelyd i Gymru pan fyddant yn dechrau addysgu.

Siart C.1: Myfyrwyr o Gymru sy'n dechrau ar gyrsiau AGA yn y DU, yn ôl lefel addysgu (cynradd ac uwchradd), 2012/13 i 2021/22




Disgrifiad o siart C.1: Siart sy'n dangos, ac eithrio uchafbwynt yn 2020/21, fod nifer y myfyrwyr o Gymru a ddechreuodd gyrsiau AGA ysgol gynradd yn uwch yn 2021/22 nag ydoedd ar gyfer pob yn ail flwyddyn ers 2012/13. Roedd nifer y myfyrwyr a ddechreuodd gyrsiau AGA ysgol uwchradd wedi cyrraedd uchafbwynt yn 2012/13, ac yna gostyngodd y nifer cyn cyrraedd lefelau tebyg eto yn 2020/21.

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) [\[Gweler y data\]](#)

- Roedd nifer y myfyrwyr a ddechreuodd ar gyrsiau lefel gynradd wedi gostwng o 1,240 yn 2020/21 i 1,160 yn 2021/22. Ond, roedd nifer y myfyrwyr a ddechreuodd gyrsiau yn 2021/22 yn uwch nag ydoedd ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2012/13 a 2019/20.
- Roedd nifer y myfyrwyr lefel uwchradd wedi gostwng o 915 yn 2020/21 i 735 in 2021/22. Ond roedd nifer y myfyrwyr a ddechreuodd gyrsiau yn 2021/22 yn uwch nag ydoedd ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2015/16 a 2019/20.

Siart C.2: Myfyrwyr blwyddyn gyntaf o Gymru ar gyrsiau AGA lefel gynradd yn y DU, yn ôl gwlad astudio, 2012/13 i 2021/22




Disgrifiad o siart C.2: Siart sy'n dangos bod nifer y myfyrwyr o Gymru sy'n dewis astudio AGA ar lefel gynradd yng Nghymru wedi gostwng yn 2021/22 yn dilyn uchafbwynt yn 2020/21, ond roedd yn dal yn uwch yn 2021/22 nag ydoedd am bob blwyddyn rhwng 2012/13 a 2019/20. Roedd nifer y myfyrwyr o Gymru sy'n dewis astudio yn Lloegr hefyd ar ei uchaf yn 2020/21, ac yn 2021/22 fe ddychwelodd i lefel debyg yn 2019/20.

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) [\[Gweler y data\]](#)

- Roedd nifer y myfyrwyr blwyddyn gyntaf o Gymru 2% yn is yn 2021/22 nag ydoedd yn 2020/21.
- Roedd y rheini a oedd yn dewis astudio yn Lloegr wedi gostwng 14% o 425 yn 2020/21 i 360 yn 2021/22.

Siart C.3: Myfyrwyr blwyddyn gyntaf o Gymru ar gyrsiau AGA lefel uwchradd yn y DU, yn ôl gwlad astudio, 2012/13 i 2021/22



Disgrifiad o siart C.3: Siart sy'n dangos bod nifer y myfyrwyr o Gymru sy'n dewis astudio cwrs AGA ar lefel uwchradd yng Nghymru wedi gostwng yn 2021/22 yn dilyn cynnydd yn 2020/21, ond roedd yn dal yn uwch yn 2021/22 nag ydoedd am bob blwyddyn rhwng 2015/16 a 2019/20. Roedd nifer y myfyrwyr o Gymru sy'n dewis astudio yn Lloegr ar ei uchaf yn 2020/21, ac yn 2021/22 fe ostyngodd y nifer i'r lefelau isaf ers 2015/16.

Ffyhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch [\[Gweler y data\]](#)


- Roedd nifer y myfyrwyr a ddechreuodd ar gyrsiau AGA ysgol uwchradd yng Nghymru 11% yn is nag ydoedd yn 2020/21. Roedd nifer y myfyrwyr yn Lloegr wedi gostwng 38%.
- Roedd 24% o fyfyrwyr o Gymru a ddechreuodd ar gyrsiau AGA wedi dewis hyfforddi i addysgu yn Lloegr – sef yn is na'r gyfran o fyfyrwyr o Gymru a ddechreuodd ar gyrsiau AGA a ddewisodd hyfforddi i addysgu yn Lloegr yn 2020/21 (31%).

Adran D: Myfyrwyr cymwysedig o Gymru sy'n astudio yn y DU

Mae'r adran hon yn rhoi sylw i fyfyrwyr sy'n dod o Gymru ac a gymhwysodd ar ddiwedd cyrsiau AGA naill yng Nghymru neu mewn mannau eraill yn y DU.

Mae [Adran B](#) yn rhoi gwybodaeth am ddiffiniad 'myfyrwyr cymwysedig' a sut y gallai data myfyrwyr cymwysedig fod wedi cael eu heffeithio gan bandemig COVID-19. Mae [Adran C](#) yn cyflwyno gwybodaeth gefndir am fyfyrwyr o Gymru.

Siart D.1: Myfyrwyr cymwysedig o Gymru ar gyrsiau AGA lefel gynradd yn y DU, yn ôl gwlad astudio, 2012/13 i 2021/22




Disgrifiad o siart D.1: Mae'r siart hon yn dangos bod cyfanswm y myfyrwyr ar gyfysiau AGA ysgol gynradd a gafodd Statws Athro Cymwysedig ar ôl astudio yng Nghymru yn 2021/22 yn uwch nag ydoedd bob blwyddyn ers 2012/13. Mae nifer y myfyrwyr o Gymru sy'n cymhwyso ar ôl astudio yn Lloegr wedi aros yn gymharol sefydlog ers 2017/18.

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) [\[Gweler y data\]](#)

- Yng Nghymru, roedd nifer y myfyrwyr cymwysedig wedi cynyddu o 570 yn 2020/21 i 640 yn 2021/22.
- Ar gyfer y rheini a astudiodd yn Lloegr, gwelwyd ychydig o ostyngiad yn y nifer a gymhwysodd yn 2021/22 i 295 (o 310 yn 2020/21).

Siart D.2: Myfyrwyr cymwysedig o Gymru ar gyrsiau AGA lefel uwchradd yn y DU, yn ôl gwlad astudio, 2012/13 i 2021/22



Disgrifiad o siart D.2: Mae'r siart hon yn dangos, er bod nifer y myfyrwyr ar gyrsiau AGA sy'n hanu o Gymru a enillodd Statws Athro Cymwysedig ar ôl astudio yng Nghymru wedi gostwng rhwng 2020/21 a 2021/22, roedd nifer y myfyrwyr cymwysedig yn dal i fod yn uwch yn 2021/22 nag ydoedd ym mhob blwyddyn rhwng 2015/16 a 2019/20.

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) [\[Gweler y data\]](#)

- Yng Nghymru, gwelwyd gostyngiad yn nifer y myfyrwyr o Gymru ar gyrsiau AGA ysgol uwchradd a enillodd Statws Athro Cymwysedig yn 2021/22 i 475 (o 515 yn 2020/21).
- Yn 2021/22, gwelwyd gostyngiad hefyd yn y nifer a gymhwysodd ar ôl astudio yn Lloegr (160 o gymharu â 250 yn 2020/21).

Adran E: Pynciau

Mae myfyrwyr sy'n hyfforddi i fod yn athrawon ysgol uwchradd yn dewis pwnc i arbenigo ynddo. Ar gyfer 2021/22, y pynciau blaenoriaeth oedd Mathemateg, Bioleg, Cemeg, Ffiseg, Ieithoedd Tramor Modern, Cymraeg a Thechnoleg Gwybodaeth. Mae Tabl E.1 yn ymwneud â myfyrwyr a oedd yn astudio cyrsiau AGA yng Nghymru. Mae pynciau'n cael eu mesur ar sail Cyfwerth â Pherson Llawn – gweler yr adran [ddiffiniadau](#). Petai cwrs AGA myfyriwr yn canolbwyntio ar fathemateg hanner yr amser ac ar ffiseg am yr hanner arall, felly, byddai'r ffigurau'n ymddangos fel myfyrwyr 0.5 mathemateg a 0.5 ffiseg.

Yn [Adran F](#) mae golwg ar ddewisiadau pynciau pobl a oedd yn hyfforddi i addysgu yn y Gymraeg, ac yn [Adran G](#) mae golwg ar y rhaniad rhwng y rhywiau mewn pynciau. Mae'r dewisiadau o ran pynciau ar gyfer myfyrwyr o Gymru ar gael ar [Stats Cymru](#).

Tabl E.1: Pwnc myfyrwyr blwyddyn gyntaf ar gyrsiau AGA ysgol uwchradd yng Nghymru, 2021/22

	2021/22
Pynciau blaenoriaeth	255
Cyfanswm Gwyddoniaeth	100
Bioleg	50
Cemeg	20
Ffiseg	20
Gwyddoniaeth Gyffredinol	10
Mathemateg	75
Cymraeg	35
Ieithoedd Modern	30
Systemau Gwybodaeth	15
Pynciau heb flaenoriaeth	420
Celf	25
Astudiaethau Busnes	15
Dylunio a Thechnoleg	30
Drama	30
Saesneg	105
Daearyddiaeth	30
Hanes	80
Cerddoriaeth	15
Addysg Gorfforol	65
Addysg Grefyddol	20
Cyfanswm Ysgol Uwchradd	675

Disgrifiad o dabl E.1: Mae'r siart hon yn dangos bod 255 o fyfyrwyr a ddechreuodd gyrsiau AGA ysgol uwchradd yng Nghymru wedi cofrestru ar gyrsiau addysgu ar gyfer pynciau blaenoriaeth yn 2021/22, a chofrestrodd 420 o fyfyrwyr ar gyrsiau addysgu ar gyfer pynciau nad ydynt yn flaenoriaeth.l'

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) [\[Gweler y data\]](#)

- Roedd 38% o'r myfyrwyr newydd a oedd yn hyfforddi if od yn athrawon ysgol uwchradd yng Nghymru wedi astudio pwnc blaenoriaeth.
- Mathemateg, Bioleg a Chymraeg oedd y pynciau blaenoriaeth mwyaf cyffredin i bobl a oedd yn hyfforddi i fod yn athrawon ysgol uwchradd yng Nghymru yn 2021/22.
- Saesneg, Hanes ac Addysg Gorfforol oedd y pynciau nad ydynt yn flaenoriaeth mwyaf cyffredin i bobl a oedd yn hyfforddi if od yn athrawon ysgol uwchradd yng Nghymru yn 2021/22.


Adran F: y Gymraeg

Mae myfyriwr yr ystyrir ei fod yn hyfforddi i addysgu yn y Gymraeg naill ai'n gwneud cwrs sy'n arwain at dystysgrif ar gyfer addysg ddwyieithog, neu gwrs sydd wedi'i gynllunio i alluogi myfyrwyr i addysgu yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol Agored yn cofnodi pob myfyriwr ar gyrsiau AGA mewn canolfan genedlaethol y Brifysgol Agored yng Nghymru fel myfyriwr sy'n hyfforddi i addysgu yn Gymraeg. Arweiniodd hyn at orgofnodi myfyrwyr sy'n hyfforddi i addysgu'n ddwyieithog yn 2020/21. Felly, mae ffigurau ar gyfer 2020/21 wedi'u diwygio. Gweler yr adran [fethodoleg](#) am fwy o wybodaeth ar sut y cyfrifir nifer y myfyrwyr sy'n hyfforddi i addysgu yn y Gymraeg erbyn hyn.

Yn ymarferol, gall siaradwyr Cymraeg fynd yn eu blaen i addysgu yn y Gymraeg p'un ai a oedd eu cwrs wedi'i ddynodi'n benodol at y diben hwnnw ai peidio.

Siart F.1: Myfyrwyr sy'n dechrau ar gyrsiau AGA yng Nghymru yn ôl iaith y cwrs, 2016/17 i 2021/22



Disgrifiad o siart F.1: Mae'r siart hon yn dangos bod cynnydd yn nifer y myfyrwyr a oedd yn hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2020/21. Er bod nifer y myfyrwyr a oedd yn hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ychydig yn is ar gyfer 2021/22, arhosodd y nifer yn uwch nag yr oedd am bob blwyddyn rhwng 2013/14 a 2019/20.

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) [\[Gweler y data\]](#)

- Roedd nifer y myfyrwyr a oedd yn hyfforddi i addysgu yn Gymraeg wedi gostwng 4%, o 335 yn 2020/21 i 325 yn 2021/22. Fodd bynnag, mae cyfran y myfyrwyr AGA sy'n hyfforddi i addysgu yn Gymraeg wedi aros yn weddol gyson ers 2013/14.
- Roedd 20% o fyfyrwyr AGA newydd yng Nghymru ar gyrsiau a oedd yn eu galluogi i addysgu yn Gymraeg yn 2021/22 o'i gymharu â 19% yn 2013/14.

Tabl F.1: Myfyrwyr sy'n dechrau ar gyrsiau AGA yng Nghymru yn ôl iaith y cwrs a lefel ysgol, 2016/17 i 2021/22

	Lefel Ysgol	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22
<u>Hyfforddi i addysgu drwy'r Gymraeg</u>	Ysgol Gynradd	150	145	110	95	145	190	210
	Ysgol Uwchradd	95	90	100	75	90	145	110
	Pob lefel	245	235	210	175	235	335	325
<u>Ddim yn hyfforddi i addysgu drwy'r Gymraeg</u>	Pob lefel	1,065	1,010	990	890	840	1,345	1,290

Disgrifiad o dabl F.1: Mae'r tabl hwn yn dangos bod nifer y myfyrwyr AGA a oedd yn hyfforddi yn y Gymraeg ar lefel ysgol gynradd rhwng 2016/17 a 2021/22 ar ei uchaf yn 2021/22, pan oedd 210 o fyfyrwyr yn hyfforddi i addysgu yn Gymraeg. Roedd nifer y myfyrwyr AGA a oedd yn hyfforddi i addysgu yn y Gymraeg ar lefel ysgol uwchradd yn is yn 2021/22 nag ydoedd yn 2020/21, ond yn uwch na phob yn ail flwyddyn ers 2016/17.

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) [\[Gweler y data\]](#)

- Er bod nifer y myfyrwyr AGA sy'n hyfforddi i addysgu yn y Gymraeg wedi cynyddu ar lefel ysgol gynradd (cynnydd o 10% o 2020/21 i 2021/22), roedd nifer y myfyrwyr AGA sy'n hyfforddi i addysgu yn y Gymraeg ar lefel ysgol uwchradd wedi gostwng 22% yn yr un cyfnod.
- Roedd 23% o'r myfyrwyr AGA newydd yng Nghymru sy'n hyfforddi i addysg ar lefel ysgol gynradd ar gyrsiau a oedd yn eu galluogi i addysgu yn y Gymraeg, o gymharu ag 17% o fyfyrwyr a oedd yn hyfforddi i addysg ar lefel ysgol uwchradd.

Tabl F.2: Pwnc myfyrwyr sy'n dechrau ar gyrsiau AGA ysgol uwchradd yng Nghymru yn ôl eu gallu i addysgu yn Gymraeg, 2021/22

	Ddim yn hyfforddi i addysgu drwy'r Gymraeg	Hyfforddi i addysgu drwy'r Gymraeg
Pynciau Blaenoriaeth	200	60
Cyfanswm Gwyddoniaeth	90	10
Bioleg	50	0
Cemeg	15	0
Ffiseg	15	5
Gwyddoniaeth Gyffredinol	5	5
Mathemateg	70	5
Cymraeg	0	35
Ieithoedd Modern	20	15
Systemau Gwybodaeth	15	0
Pynciau heb flaenoriaeth	365	55
Celf	20	0
Astudiaethau Busnes	15	0
Dylunio a Thechnoleg	25	10
Drama	25	5
Saesneg	100	5
Daearyddiaeth	25	5
Hanes	70	10
Cerddoriaeth	10	0
Addysg Gorfforol	55	10
Addysg Grefyddol	20	0
Cyfanswm Ysgol Uwchradd	565	110

Disgrifiad o dabl F.2: Mae'r tabl hwn yn dangos bod 60 o fyfyrwyr AGA ar gyrsiau pynciau blaenoriaeth yn hyfforddi i addysgu yn Gymraeg, ac roedd 35 o'r rhain yn hyfforddi i addysgu'r Gymraeg fel pwnc. Roedd 55 o fyfyrwyr AGA yn hyfforddi i addysgu pynciau nad ydynt yn flaenoriaeth yn y Gymraeg.

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) [\[Gweler y data\]](#)

- Roedd 11% o'r myfyrwyr yn dilyn cwrs pwnc blaenoriaeth (ac eithrio Cymraeg) yn hyfforddi i addysgu yn y Gymraeg yn 2021/22, tra bo 13% o fyfyrwyr a oedd yn dilyn pwnc nad yw'n flaenoriaeth yn hyfforddi i addysgu yn y Gymraeg.

Tabl F.3: Nifer y myfyrwyr sy'n cofnodi eu gallu i siarad Cymraeg sy'n dechrau ar gyrsiau AGA yng Nghymru yn ôl eu gallu i addysgu yn y Gymraeg, 2021/22

	Siaradwr Cymraeg rhugl	Ddim yn siaradwr Cymraeg rhugl ^(a)	Pob Myfyrwyr
Hyfforddi i addysgu drwy'r Gymraeg	265	45	325
Ddim yn hyfforddi i addysgu drwy'r Gymraeg	120	1,000	1,290
Pob Myfyrwyr	390	1,045	1,610

Disgrifiad o dabl F.3: Mae'r tabl hwn yn dangos bod 265, o'r 390 o fyfyrwyr AGA yn 2021/22 a nododd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl, yn hyfforddi i addysgu yn y Gymraeg.

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) [\[Gweler y data\]](#)

(a) 'Ddim yn siaradwr Cymraeg rhugl' yn cynnwys myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg ond nad ydynt yn ystyried eu hunain yn rhugl. Mae'r rhai sydd â gallu Cymraeg anhysbys wedi'u cynnwys yn y cyfamsymiau.

- Roedd nifer y myfyrwyr AGA a nododd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl yn 2021/22 yn uwch nad y mae wedi bod ers 2016/17.
- O'r rhai a oedd yn siarad Cymraeg yn rhugl, dechreuodd 265 (69%) gyrsiau hyfforddi i addysgu yn Gymraeg.

Tabl F.4: Nifer y myfyrwyr sy'n cofnodi eu gallu i siarad Cymraeg, a'u gallu i addysgu yn y Gymraeg, sy'n dechrau ar gyrsiau AGA yng Nghymru yn ôl lefel ysgol, 2016/17 i 2021/22

	Lefel Ysgol	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22
<u>Hyfforddi i addysgu drwy'r Gymraeg</u>	Ysgol Gynradd	145	110	95	145	190	210
	Ysgol Uwchradd	90	100	75	90	145	110
	Pob Lefel Ysgol	235	210	175	235	335	325
<u>Siaradwr Cymraeg rhugl ^(a)</u>	Ysgol Gynradd	220	195	165	185	205	235
	Ysgol Uwchradd	130	110	100	115	180	150
	Pob Lefel Ysgol	350	305	265	300	385	390

Disgrifiad o dabl F.4: Mae'r tabl hwn yn dangos bod nifer y myfyrwyr AGA ysgol gynradd a oedd yn siaradwr Cymraeg rhugl yn 2021/22 yn uwch nag ydoedd ar gyfer unrhyw flwyddyn arall, ond roedd nifer y myfyrwyr AGA ysgol uwchradd a oedd yn rhugl yn y Gymraeg yn 2021/22 yn is nag ydoedd yn 2020/21

Ffynhonnell: Confod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) [\[Gweler y data\]](#)


(a) 'Ddim yn siaradwr Cymraeg rhugl' yn cynnwys myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg ond nad ydynt yn ystyried eu hunain yn rhugl.

Adran G: Demograffeg

Mae'r holl ddata ynglŷn â demograffeg a ddangosir yma yn ymwneud â myfyrwyr a oedd yn astudio yng Nghymru, ond mae data demograffig ynglŷn â myfyrwyr o Gymru a oedd yn astudio yn y DU ar gael ar [StatsCymru](#).

Rhywedd

Siart G.1: Cyfran y myfyrwyr gwrywaidd a benywaidd sy'n dechrau ar gyrsiau AGA yng Nghymru yn ôl lefel ysgol, 2021/22



Disgrifiad o siart G.1: Mae'r siart hon yn dangos bod cyfran uwch o fyfyrwyr benywaidd na myfyrwyr gwrywaidd a oedd yn dechrau cyrsiau AGA ysgol gynradd a chysiau AGA ysgol uwchradd. Ar y cyfan, roedd 73% o'r myfyrwyr AGA yn fyfyrwyr benywaidd.

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) [\[Gweler y data\]](#)

Tabl G.1: Rhywedd a lefel ysgol myfyrwyr sy'n dechrau ar gyrsiau AGA yng Nghymru, 2021/22

	Dynion	Menywod	Pobl
Ysgol gynradd	170	765	935
Ysgol uwchradd	265	410	675
Cyfanswm	435	1,175	1,610

Disgrifiad tabl G.1: Mae'r tabl hwn yn dangos bod 1,175 o'r 1,610 o fyfyrwyr ar gyrsiau AGA yng Nghymru yn fyfyrwyr benywaidd.

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) [\[Gweler y data\]](#)

(a) Mae cyfanswm y personau'n cynnwys y rheini o ryw amhenodol ac yn anhysbys, ac mae'n cynnwys y rheini a gategoreiddiwyd fel 'Arall'.

Roedd dros bedair gwaith yn fwy o fenywod ag o ddynion yn dechrau hyfforddi i fod yn athrawon cynradd yn 2021/22, a dwywaith yn fwy o fenywod na dynion ar y cyfan.

- Roedd mwyafrif y dynion (61%) yn hyfforddi i fod yn athrawon ysgol uwchradd, tra'r oedd mwyafrif y menywod (65%) yn hyfforddi i fod yn athrawon ysgol gynradd.

Tabl G.2: Pwnc a rhywedd myfyrwyr sy'n dechrau ar gyrsiau AGA ysgol uwchradd yng Nghymru, 2021/22

	<u>Menywod</u>		<u>Dynion</u>
Pynciau Blaenoriaeth	135		120
Cyfanswm Gwyddoniaeth	55		45
Bioleg	30		20
Cemeg	10		10
Ffiseg	5		10
Gwyddoniaeth Gyffredinol	5		5
Mathemateg	30		45
Cymraeg	25		10
Ieithoedd Modern	20		10
Systemau Gwybodaeth	5		15
Pynciau heb flaenoriaeth	275		145
Celf	20		0
Astudiaethau Busnes	5		5
Dylunio a Thechnoleg	25		5
Drama	25		5
Saesneg	80		25
Daearyddiaeth	15		15
Hanes	40		40
Cerddoriaeth	10		5
Addysg Gorfforol	25		40
Addysg Grefyddol	20		0
Cyfanswm Ysgol Uwchradd	410		265


Disgrifiad o dabl G.2: Mae'r tabl hwn yn dangos mai cyrsiau AGA ysgol uwchradd ar gyfer Saesneg, Hanes, Mathemateg a Bioleg oedd y rhai mwyaf poblogaidd ymhlith myfyrwyr benywaidd, a Mathemateg, Hanes ac Addysg Gorfforol oedd y cyrsiau mwyaf poblogaidd ymhlith y myfyrwyr gwrywaidd.

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch [\[Gweler y data\]](#)

- Dim ond Ffiseg, Mathemateg, TG ac Addysg Gorfforol oedd y cyrsiau a oedd yn cynnwys mwy o fyfyrwyr gwrywaidd na myfyrwyr benywaidd a ddechreuodd gyrsiau AGA ysgol uwchradd yn 2021/22.
- Roedd 53% o'r myfyrwyr a oedd yn astudio i hyfforddi pynciau blaenoriaeth yn fyfyrwyr benywaidd, a 46% yn fyfyrwyr gwrywaidd.
- Roedd 33% o'r myfyrwyr benywaidd a 45% o'r myfyrwyr gwrywaidd yn astudio i addysgu pynciau blaenoriaeth.

Oedran

Siart G.3: Oedran myfyrwyr sy'n dechrau ar gyrsiau AGA yng Nghymru, 2021/22




Disgrifiad o siart G.3: Mae'r siart hon yn dangos bod y mwyafrif o fyfyrwyr sy'n dechrau ar gyrsiau AGA yn 2021/22 yn 21 oed neu'n hŷn.

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) [\[Gweler y data\]](#)

- Roedd 50% o'r myfyrwyr blwyddyn gyntaf ar gyrsiau AGA yng Nghymru rhwng 21 a 24 oed.

Ethnigrwydd

Siart G.4: Ethnigrwydd myfyrwyr sy'n dechrau cyrsiau AGA yng Nghymru, 2021/22



Disgrifiad o siart G.4: Mae'r siart hon yn dangos, ers 2019/20, fod 5% o'r myfyrwyr sy'n dechrau cyrsiau AGA yr oedd eu hethnigrwydd yn hysbys o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Roedd grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cyfrif am lain a 5% o fyfyrwyr sy'n dechrau cyrsiau AGA am bob blwyddyn rhwng 2012/13 a 2018/19.

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) [\[Gweler y data\]](#)

- Dechreuodd 80 o fyfyrwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol hyfforddi i fod yn athrawon yng Nghymru yn 2021/22, o gymharu â 1,410 o fyfyrwyr o gefndir Gwyn.
- Roedd 5% o'r myfyrwyr AGA newydd yng Nghymru yr oedd eu hethnigrwydd yn hysbys o grŵp Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol yn 2021/22, sef yr un ganran ag ydoedd yn 2020/21.
- Mae ethnigrwydd y rheini o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol wedi'i grwpio oherwydd y boblogaeth fach, sy'n cynnwys 'Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig', 'Du neu Ddu Prydeinig', 'Tsieiniaidd', 'Cymysg' ac 'Arall'.

Anabledd

Tabl G.5: Anabledd ymysg myfyrwyr sy'n dechrau ar gyrsiau AGA yng Nghymru, 2021/22

<u>Anabledd hysbys</u>		<u>2021/22</u>
Anhawster dysgu penodol e.e. dyslecsia		80
Dall/rhannol ddall		0
Byddar/nam ar y clyw		5
Nam corfforol / problemau symudedd		5
Cyflwr iechyd meddwl e.e. iselder		60
Nam cymdeithasol / cyfathrebu e.e. anhwylder sbectrwm awtistig		5
Salwch / cyflwr iechyd hirdymor e.e. diabetes, cancer		15
Anableddau lluosog		25
Anabledd arall nad yw wedi ei restru		15
<u>Cyfanswm yr anableddau hysbys</u>		210
<u>Dim anabledd hysbys</u>		1,400

Disgrifiad o dabl G.5: Mae'r tabl hwn yn dangos bod gan 210 o fyfyrwyr sy'n dechrau ar gyrsiau AGA o leiaf un anabledd hysbys yn 2021/22.

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) [\[Gweler y data\]](#)

- Roedd 13% o'r myfyrwyr AGA newydd â rhyw fath o anabledd hysbys.
- Yr anabledd mwyaf cyffredin oedd Anhawster Dysgu Penodol; nododd 80 o fyfyrwyr fod ganddynt yr anabledd hwn – mae dyslecsia'n gyflwr sydd yn y categori hwn.
- Nododd 60 o fyfyrwyr fod ganddynt gyflwr iechyd meddwl

Methodoleg

Nodiadau pwysig ynghylch sut y cyfrifwyd yr ystadegau. Mae gwybodaeth fwy manwl am y termau a ddefnyddir yn y bwletin hwn ar gael yn yr adran [Ddiffiniadau](#).

Ffynhonnell y data

Daw mwyafrif y data yn y bwletin hwn o Gofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).

Mae crynodeb o'r broses o gasglu data Myfyrwyr ar gyfer 2021/22, sy'n cwmpasu amserlenni, dilysu a rheolau busnes a phrosesau gwirio ar gael ar [wefan HESA](#).

Cwmpas

Mae'r bwletin hwn yn darparu gwybodaeth am gyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig (SAC) a ddarperir drwy sefydliadau addysg uwch.

Mae'r ystadegau'n cwmpasu'r myfyrwyr sy'n rhan o boblogaeth gofrestru safonol Addysg Uwch HESA, neu ei phoblogaeth cymwysterau a enillwyd mewn Addysg Uwch, yn unig. Mae rhagor o wybodaeth am y poblogaethau hyn ar gael yn y [diffiniadau o fyfyrwyr ar wefan HESA](#).

Mae llwybrau eraill ar sail cyflogaeth i ennill SAC, ond nid yw'r rhain wedi'u cwmpasu gan y bwletin hwn.

Myfyrwyr

Mae pob cyfeiriad at 'fyfyrwyr' yn y bwletin hwn yn cyfeirio at 'gofrestriadau myfyrwyr'. Cyfrif yw hwn o bob cofrestriad ar gyfer cwrs AGA. Mewn achosion prin pan oedd myfyriwr wedi cofrestru ar ddau wahanol gwrs AGA yn yr un flwyddyn, byddai'r myfyriwr hwnnw'n cael ei gyfrif ddwywaith.

Mae dadansoddiad blaenorol wedi dangos yn achos Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru:

- bod cofrestriadau amser llawn lai nag 1 y cant yn uwch na niferoedd y myfyrwyr amser llawn;
- bod cofrestriadau rhan-amser lai na 2 y cant yn uwch na niferoedd y myfyrwyr rhan-amser.

Newydd-ddyfodiaid/myfyrwyr sy'n dechrau gyrsiau AGA

Mae pob cyfeiriad at 'fyfyrwyr sy'n dechrau gyrsiau AGA' neu 'newydd-ddyfodiaid' yn y bwletin hwn yn cyfeirio at gofrestriadau myfyrwyr ar flwyddyn gyntaf cwrs ITE.

Myfyrwyr cymwysedig

Mae pob cyfeiriad at 'fyfyrwyr cymwysedig' yn y bwletin hwn yn cyfeirio at 'y cymwysterau a enillwyd'. Mewn achosion prin pan gafodd myfyriwr ddau wahanol gymhwyster AGA yn yr un flwyddyn, byddai'r myfyriwr hwnnw'n cael ei gyfrif ddwywaith.

Pynciau

Mae pynciau'n cael eu mesur ar sail Cyfwerth â Pherson Llawn. Petai cwrs AGA myfyriwr yn canolbwyntio ar fathemateg hanner yr amser ac ar ffiseg am yr hanner arall, felly, byddai'r ffigurau'n ymddangos fel myfyrwyr 0.5 mathemateg a 0.5 ffiseg.

Newidiadau i'r fethodoleg

Rhwng 2013/14 a 2019/20, roedd myfyrwyr y Brifysgol Agored yng Nghymru yn cael eu hadnabod yn ôl eu nod Rhanbarth y Domisil [*Region of Domicile*] yn nata HESA. Y tu hwnt i'r cyfnod hwn, roedd myfyrwyr y Brifysgol Agored yn cael eu hadnabod â nod campws y Brifysgol Agored, neu nod canolfan genedlaethol y Brifysgol Agored yn nata HESA. Dengys dadansoddiad fod y nodau hyn yr un peth ar gyfer myfyrwyr AGA yng Nghymru dros yr un cyfnod.

Cofnododd y Brifysgol Agored fod yr holl fyfyrwyr ar gyrsiau AGA yn 2020/21 yn fyfyrwyr a oedd yn hyfforddi addysgu yn y Gymraeg, gan arwain at orgofnodi myfyrwyr a oedd yn hyfforddi i addysgu'n ddwyieithog. Mae'r ffigurau hyn wedi cael eu diwygio ers hynny yn dilyn gwaith gyda CCAUC a'r Brifysgol Agored. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn cael gwybodaeth am fyfyrwyr sy'n hyfforddi i addysgu'n ddwyieithog yn uniongyrchol o'r Brifysgol Agored i ddarparu ffigurau diwygiedig bob blwyddyn.

Cyn cyhoeddi data 2021/22, cafodd myfyrwyr ar gyrsiau 'Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon y Blynyddoedd Cynnar' eu cynnwys yn y data. Mae'r myfyrwyr hyn wedi'u hepgor o 2021/22, ac adolygwyd data 2020/21 i adlewyrchu'r newid hwn a chaniatáu cymariaethau blynyddol. Mae'n ymddangos bod effaith y newid hwn yn fach iawn.

Cyn cyhoeddi data 2021/22, roedd myfyrwyr ar gyrsiau 'Diploma Ôl-raddedig mewn Addysg' yn cael eu trin yn anghywir fel myfyrwyr TAR, gan arwain at orgofnodi myfyrwyr ar gyrsiau TAR. O 2021/22, caiff y myfyrwyr hyn eu trin fel myfyrwyr ar gyrsiau gradd 'Eraill' sy'n arwain at SAC. Diwygiwyd data 2020/21 i adlewyrchu'r newid hwn ac i ganiatáu cymariaethau blynyddol. Ymddengys fod effaith y newid hwn yn fach iawn.

Y strategaeth ynglŷn â thalgrynnu

Mae'r dull o gyflwyno ffigurau yn y Bwletin Ystadegol hwn yn dilyn egwyddorion [strategaeth dalgrynnu HESA](#). Bwriedir i'r strategaeth atal achosion o ddatgelu gwybodaeth bersonol am unrhyw unigolyn. Yn y strategaeth hon, caiff pob rhif ei dalgrynnu i'r 5 agosaf. Dyma grynodedeb o'r strategaeth:

- Mae cyfrifiadau o bobl yn cael eu talgrynnu i'r lluosrif o 5 agosaf.

Mae cyfansymiau hefyd yn destun y fethodoleg dalgrynnu hon; o ganlyniad, efallai na fydd cyfanswm y rhifau ym mhob rhes neu golofn yn cyfateb yn union i'r cyfanswm a ddangosir. Mae'r canrannau wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio ffigurau sydd heb eu talgrynnu.

Diffiniadau

Y gallu i addysgu yn y Gymraeg / hyfforddi i addysgu yn Gymraeg

Ystyrir bod myfyrwyr yn rhai 'hyfforddi i addysgu yn y Gymraeg' os ydynt yn cymryd rhan mewn cwrs sydd naill ai'n arwain at dystysgrif ffurfiol o addysg ddwyieithog, neu nad yw'n arwain at dystysgrif, ond sydd wedi'i gynllunio i alluogi myfyrwyr i addysgu yn y Gymraeg.

Oedran

Oedran ar 31 Awst yn y cyfnod adrodd. Er enghraifft, yn ystod cyfnod adrodd 1 Awst 2012 hyd 31 Gorffennaf 2013, bydd yr oedran fel y mae ar 31 Awst 2012.

Gwlad astudio

Mae'r wlad astudio wedi'i seilio ar gyfeiriad canolfan weinyddol y Sefydliad Addysg Uwch yr aethpwyd iddo. Lloegr fyddai'r wlad astudio i ddysgwyr o bell a oedd yn gwneud cwrs mewn prifysgol yn Lloegr.

Dosbarth gradd

Y cymhwyster a gafwyd ar ddiwedd cwrs AGA. Nid yw dosbarthiadau gradd yn berthnasol i'r Dystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR).

Y math o radd

Mae TAR yn cynnwys Tystysgrif Addysg i Raddedigion, Tystysgrif Addysg Broffesiynol i Raddedigion, a'r Diploma Proffesiynol mewn Addysg. Cymhwyster lefel gradd Meistr yw'r Dystysgrif Addysg i Raddedigion, ond **nid** yw'r Dystysgrif Addysg Broffesiynol i Raddedigion yn gymhwyster lefel gradd Meistr. Mewn rhai achosion, gallai myfyriwr ddechrau astudio cwrs ôl-raddedig, ond gadael â chymhwyster israddedig.

Mae mwyafrif y cyrsiau 'Gradd Arall' ar lefel gradd Baglor, gan gynnwys elfen addysgu sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig.

Anabledd

Ers 2010/11, bu HESA yn gosod anableddau mewn categorïau gan ddefnyddio fersiwn o'r ffrâm codio a luniwyd gan y Comisiwn Hawliau Anabledd. Mae wedi'i seilio ar hunanasesiad myfyriwr, ac nid oes rhaid i fyfyrwyr roi gwybod am anabledd. Yn achos myfyrwyr sy'n parhau, pan nad oedd y wybodaeth yn hysbys eisoes, gall sefydliadau nodi na cheisiwyd gwybodaeth am anabledd myfyriwr. O ganlyniad, efallai nad yw'r ffigurau ynglŷn ag anabledd yn cwmpasu pob myfyriwr sydd ag anabledd.

Ethnigrwydd

Mae ethnigrwydd wedi'i seilio ar hunanasesiad myfyriwr.

Myfyrwyr blwyddyn gyntaf

Myfyriwr a ddechreuodd ei gwrs y flwyddyn honno.

Rhywedd

Mae rhyweddau eraill wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau. Gwlad gartref

Mae 'gwlad gartref' yn cyfeirio at gyfeiriad parhaol (domisil) myfyriwr **cyn** dechrau'r cwrs. Mae myfyrwyr o Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw wedi'u cynnwys yn "DU, anhysbys", er mwyn cydfynd ag ystadegau Addysg Uwch eraill.

Gwlad cartref

Mae 'rhanbarth cartref' yn cyfeirio at gyfeiriad parhaol (domisil) myfyriwr **cyn** dechrau'r cwrs. Mae myfyrwyr o Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw wedi'u cynnwys fel 'Anhysbys y DU', i gyd-fynd ag ystadegau Addysg Uwch eraill.

Awdurdod lleol cartref

Mae 'awdurdod lleol cartref' yn cyfeirio at gyfeiriad parhaol (domisil) myfyriwr **cyn** dechrau'r cwrs.

Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA)

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) neu Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon (HAGA) oedd hen enwau Addysg Gychwynnol i Athrawon. Mae'n cwmpasu pob llwybr y bydd rhywun yn ei ddilyn i ddod yn athro – gan ennill Statws Athro Cymwysedig. Mae'r bwletin hwn yn cwmpasu pobl sy'n dod yn athrawon drwy gyrsiau Addysg Uwch ffurfiol.

Statws Athro Cymwysedig (SAC)

Rhaid bod â Statws Athro Cymwysedig er mwyn addysgu mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru. Mae SAC yng Nghymru yn wahanol i SAC yn Lloegr neu gofrestr y Cyngor Addysgu Cyffredinol yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban. Fodd bynnag, caiff unigolyn sy'n ennill SAC yn Lloegr a'r Alban addysgu yng Nghymru.

Myfyrwyr cymwysedig

Mae 'myfyrwyr cymwysedig' yn cyfeirio at gyfanswm y cymwysterau yn y bwletin hwn drwyddo draw. Mae rhagor o wybodaeth am y gwahaniaeth rhwng 'myfyrwyr cymwysedig' a 'chymwysterau' ar gael yn yr adran [fethodoleg](#).

Lefel ysgol

Mae 'lefel ysgol' yn nodi a yw'r cwrs yn canolbwyntio ar hyfforddi athrawon ysgol gynradd neu uwchradd. Yn aml, gelwir hyn yn 'gyfnod ysgol'. Pan fydd athro wedi cymhwyso, efallai y bydd yn addysgu ystod oedrannau wahanol i'r un y bu'n hyfforddi ar ei chyfer i gychwyn.

Mae rhai cyrsiau'n cwmpasu ystod oedran ehangach; yn yr achosion hynny, maent wedi'u categoreiddio yn ôl yr oedran hynaf y maent yn ei gwmpasu. Mae athrawon Blynnyddoedd Cynnar wedi'u heithrio o'r holl ddata o 2020/21.

Myfyrwyr

Mae 'Myfyrwyr' yn cyfeirio at gofrestriadau myfyrwyr yn y bwletin hwn drwyddo draw. Mae rhagor o wybodaeth am y gwahaniaeth rhwng 'myfyrwyr' a 'chofrestriadau myfyrwyr' ar gael yn yr adran [fethodoleg](#).

Myfyrwyr yng Nghymru

Ystyr 'Myfyrwyr yng Nghymru' yw'r rhai sy'n hyfforddi mewn Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru ac yn y Brifysgol Agored yng Nghymru. Rhwng 2013/14 a 2019/20, nodwyd myfyrwyr y Brifysgol Agored yng Nghymru yn ôl nod rhanbarth y Domisil yn nata HESA. Ar wahân i'r cyfnod hwn, mae myfyrwyr y Brifysgol Agored yn cael eu hadnabod yn ôl nod campws y Brifysgol Agored, neu nod canolfan genedlaethol y Brifysgol Agored yn nata HESA. Mae gwaith dadansoddi wedi dangos bod y nodau hyn yn union yr un fath ar gyfer myfyrwyr AGA yng Nghymru dros y cyfnod dan sylw.

Myfyrwyr o Gymru sy'n astudio yn y DU

Ystyr 'Myfyrwyr o Gymru sy'n astudio yn y DU' yw'r rhai yr oedd eu cyfeiriad parhaol (domisil) yng Nghymru cyn y cwrs ac sydd bellach yn dysgu mewn Sefydliad Addysg Uwch yn y DU, naill ai yng Nghymru neu yn rhywle arall. Bydd llawer o'r 'Myfyrwyr o Gymru sy'n astudio yn y DU' hefyd yn 'Fyfyrwyr yng Nghymru'.

Pwnc

Gall myfyrwyr ar gyrsiau AGA ysgol uwchradd arbenigo mewn pwnc. Mae'r pynciau hyn wedi'u grwpio i'r categorïau a ddarperir.

Blwyddyn

Blynyddoedd academaidd yw'r blynyddoedd y cyfeirir atynt, o 1 Awst i 31 Gorffennaf.

Gwybodaeth allweddol am ansawdd

Mae'r adran hon yn darparu crynodeb o wybodaeth am yr allbwn hwn yn ôl pum dimensiwn o ansawdd, sef: Perthnasedd, Cywirdeb, Amseroldeb a Phrydlondeb, Hygyrchedd ac Eglurder, a Chymaroldeb. Mae [HESA](#) (sef ffynhonnell y data) yn cyhoeddi Ystadegau Gwladol ei hun ac mae'n rhoi manylion am ansawdd ei data ar ei gwefan.

Perthnasedd

Defnyddir yr ystadegau yn y bwletin hwn y tu mewn i Lywodraeth Cymru a'r tu allan iddi er mwyn monitro tueddiadau mewn darpariaeth AGA yn Sefydliadau Addysg Uwch Cymru ac i fonitro darpariaeth ledled y DU ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru. Dyma rai o'r prif ddefnyddwyr:

- Gweinidogion a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Swyddogion yn Llywodraeth Cymru;
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC);
- Sefydliadau Addysg Uwch a chyrrff cynrychiadol;
- Myfyrwyr, ymchwilwyr ac academyddion;
- Dinasyddion unigol, cwmnïau preifat, a'r cyfryngau;

Defnyddir yr ystadegau hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd. Dyma rai enghreifftiau o'r rhain:

- Cyngor i Weinidogion;
- Llywio'r broses o wneud penderfyniadau ar bolisiâu addysg yng Nghymru;
- Helpu i fodelu'r cyflenwad a'r galw yn y dyfodol o ran athrawon a llywio dyraniadau derbyn AGA;
- Rhagweld gwariant yn y dyfodol o ran cynlluniau cymorth i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru;

Cywirdeb

Mae'r Cofnod Myfyrwyr yn cynnwys gwybodaeth am gofrestriadau unigol, a fydd yn fwy na nifer y myfyrwyr oherwydd gall myfyriwr gofrestru ar fwy nag un rhaglen astudio. Mae dadansoddiad blaenorol wedi dangos bod cofrestriadau amser llawn mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru lai nag 1 y cant yn uwch na niferoedd y myfyrwyr amser llawn; a bod cofrestriadau rhan-amser lai na 2 y cant yn uwch na niferoedd y myfyrwyr rhan-amser.

Nid yw myfyrwyr ôl-ddoethurol wedi'u cynnwys yng Nghofnod Myfyrwyr HESA.

Cyfrifiad blynyddol o fyfyrwyr yw'r Cofnod Myfyrwyr. Cafodd y camau a gymerwyd gan HESA i sicrhau ansawdd data eu hamlinellu yn yr adran fethodoleg.

Amseroldeb a phrydlondeb

Casglodd HESA ddata cofrestru myfyrwyr ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021/22 rhwng mis Awst a mis Hydref 2022. Bu gwybodaeth AGA o'r cofnod myfyrwyr ar gael ers mis Ionawr 2023. Mae adeg cyhoeddi'r bwletin hwn wedi'i symud o fis Medi i fis Mehefin er mwyn adlewyrchu'r galw am y wybodaeth.

Hygyrchedd ac eglurder

Rhoddir gwybod am y bwletin ystadegol hwn o flaen llaw ac yna caiff ei gyhoeddi ar adran Ystadegau gwefan Llywodraeth Cymru. Mae'n cael ei ategu gan dablau fwy manwl ar StatsCymru, sef gwasanaeth am ddim sy'n galluogi ymwelwyr i weld, trin, creu a lawrlwytho data.

Cymaroldeb a chydlyniaeth

Nid oes unrhyw ffigurau wedi'u cyhoeddi ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021/22 ar gyfer gwledydd eraill y DU y gellir eu cymharu'n uniongyrchol â ffigurau yn y bwletin hwn.

Mae HESA yn cyhoeddi adroddiad sy'n defnyddio dull gwahanol i'r bwletin hwn, ond sy'n peri bod modd cymharu hyfforddiant athrawon mewn addysg uwch yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn uniongyrchol. Ceir hefyd gyhoeddiadau sy'n cwmpasu AGA o bob un o wledydd y DU mewn cysylltiad â'u polisïau a'u dyraniadau eu hunain (gweler y cyhoeddiadau isod).

Cyhoeddiadau cysylltiedig

[Ystadegau Addysg Uwch ar gyfer y DU \(HESA\)](#)

Cyfres o dablau sy'n edrych yn eang ar niferoedd myfyrwyr yn sefydliadau'r DU, gan gynnwys un tabl sy'n cymharu cymwysterau a chofrestriadau AGA ar draws pob un o bedair gwlad y DU.

[Ceisiadau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon ar Ddiwedd Cylch 2021 \(UCAS\)](#)

Dau adroddiad sy'n archwilio ystadegau ynglŷn ag ymgeiswyr a cheisiadau ar gyfer cyrsiau AGA yng Nghymru a Lloegr

[Myfyrwyr mewn Sefydliadau Addysg Uwch \(Llywodraeth Cymru/HESA\)](#)

Adroddiad blynyddol sy'n rhoi manylion ynghylch cofrestriadau a chymwysterau myfyrwyr.

[Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch yn y DU \(Llywodraeth Cymru/HESA\)](#)

Adroddiad blynyddol sy'n cyflwyno data yn ôl gweithgaredd a lleoliad ynghylch ymadawyr addysg uwch â gradd.

[Ystadegau am y Gweithlu Addysg \(Cyngor y Gweithlu Addysg\)](#)

Ystadegau ynglŷn â phobl sydd wedi'u cofrestru i addysgu mewn ysgolion/sefydliadau addysg bellach yng Nghymru.

[Ystadegau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon \(CCAUC\)](#)

Ystadegau cryno gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ynghylch niferoedd, nodweddion, a chymwysterau myfyrwyr AGA.

[Cyfrifiad Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon \(Adran Addysg Llywodraeth y DU\)](#)

Adroddiad sy'n darparu gwybodaeth dros dro ynghylch ffigurau recriwtio HCA yn Lloegr, gan gynnwys cymariaethau rhwng derbyniadau cynnar i gyrsiau HCA a dyraniadau hyfforddiant athrawon yn Lloegr.

[Proffiliau perfformiad hyfforddiant cychwynnol athrawon ar gyfer y flwyddyn academiaidd \(Adran Addysg Llywodraeth y DU\)](#)

Mae'r Datganiad Ystadegol Cyntaf hwn yn darparu golwg manwl ar ganlyniadau cyrsiau AGA yn Lloegr, gan gynnwys cymwysterau a statws cyflogaeth y rhai sydd wedi cwblhau, chwe mis ar ôl iddynt gymhwyso.

[Taflen Wybodaeth Ystadegol: Hyfforddiant cychwynnol athrawon yn Sefydliadau Addysg Uwch Gogledd Iwerddon \(Adran yr Economi – Gogledd Iwerddon\)](#)

Taflen gryno sy'n nodi manylion am gofrestriadau HCA, a'r nifer sy'n ei gwblhau, yng Ngogledd Iwerddon.

[Ystadegau Cryno ynghylch Ysgolion yn yr Alban \(Llywodraeth yr Alban\)](#)

Trosolwg ar ystadegau ysgolion yr Alban, gan gynnwys athrawon sydd newydd gymhwyso sy'n dechrau eu cwrs cynefino mewn ysgol yn yr Alban.

Statws Ystadegau Gwladol

Mae [Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig](#) wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007, sy'n dangos eu bod yn cydymffurfio â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol](#).

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ystadegau gwladol yn cyrraedd y safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth i'r cyhoedd, a'n cyfrifoldeb ni yw parhau i gydymffurfio â'r safonau hyn.

Cadarnhawyd bod yr ystadegau hyn wedi cael eu dynodi'n Ystadegau Gwladol mewn llythyr ar 03 Mai 2012.

Cynhaliwyd yr asesiad llawn ddiweddaraf o'r ystadegau ([Adroddiad Asesu 76](#)) yn unol â'r Cod Ymarfer ym mis Rhagfyr 2010.

Ers hynny rydym wedi parhau i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, ac rydym wedi gwneud y gwelliannau canlynol:

- cyflwyno siartiau ym mhob adran a chynnwys tablau yn yr adroddiad, a oedd yn arfer cael eu rhoi mewn atodiad
- cyflwyno disgrifiad o adroddiad Llesiant Cymru a dolen iddo
- cyflwyno testun alt ac ehangu manylion testun alt i bob siart a thabl

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol" sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. O dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio'r dangosyddion cenedlaethol, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (a) gyhoeddi'r dangosyddion fel y'u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Fe gafodd y dangosyddion cenedlaethol hyn osodwyd gerbron y Senedd yn 2021. Mae'r dangosyddion a osodwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn disodli'r set a osodwyd ar 16 Mawrth 2016

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn [adroddiad Llesiant Cymru](#).

Gwybodaeth bellach am [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrdau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

Rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen ar gael yn: <https://llyw.cymru/addysg-gychwynnol-i-athrawon>

Mae tablau sy'n gysylltiedig â'r bwletin hwn ac sy'n cynnwys mwy o fanylion ar gael drwy [StatsCymru](#), sef gwasanaeth dosbarthu data rhyngweithiol Llywodraeth Cymru.

Y diweddariad nesaf

Mai 2024 (gallai hyn newid)

Rydym am gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Gallwch anfon eich sylwadau drwy e-bost i addysguwchachyllidmyfyrwyr.Yst@llyw.cymru

Y Drwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y [Drwydded Llywodraeth Agored, fersiwn 3.0](#), oni nodir yn wahanol.

